

Cyflwyniad

Yn ôl Llywodraeth Cymru (2018) nad yw'r system bresennol yn addas at y diben mwyach. Cred y dylai model a gyflwynwyd dros 30 mlynedd yn ôl gael ei ddisodli gan ymagwedd fwy modern tuag at waith amlasiantaeth er budd y plentyn neu yr person ifanc, a fydd yn eu cefnogi yn y siwrnai drwy addysg a'u dewisiadau mewn bywyd. Felly, bydd y Fframwaith Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) presennol, sydd yn cael ei gyfleu yn Neddf Addysg 1996, yn cael ei ddisodli gan system newydd o'r enw Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) (Dauncey, 2016). Mae SNAP Cymru (2016) yn croesawu'r newid mewn terminoleg fel un mwy disgrifiadol a mwy cynhwysol ond nid ydyn yn credu y bydd yn cael unrhyw effaith dros dro ar leihau'r stigma sydd yn gysylltiedig ag unrhyw labelu gwahaniaeth mewn plant a phobl ifanc. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi er bod y term wedi newid o AAA i ADY, mae'r diffiniad sydd yn sail i'r term yn aros yr un fath. Yn ôl Llywodraeth Cymru (2018) y rheswm dros newid y dywediad presennol AA yw i gael gwared ar y stigma a'r labelu sydd ar blant ag ADY. Credant y bydd gwneud hyn yn hyrwyddo cynhwysiant a chydaddoldeb i bob disgybl ac yn cynning cymorth a'r sylw ychwanegol sydd angen arnynt. . Credau UNESCO (2020), er mwyn cyflawni addysg gynhwysol, bod rhaid i chi ddileu rhwystrau i ddysgu, gwella mynediad a chyfranogiad a dysgu llwyddiant mewn addysg sylfaenol o safon i bawb. Anghytunwyd Clough a Clough (2013) a ddyfynnir yn Nutbrown a Clough (2013) credwyd bod gofynion plant yn newid drwy'r amser felly, ni allwn cadw i fyny efo hyn sydd yn golygu ni fydd byth cynhwysiant llawn. Mae'r gyfraith bresennol yn berthnasol i unigolion hyd at 19 oed yn unig, bydd ADY yn cael eu cymhwyso o fewn fframwaith deddfwriaethol sengl ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc, o'u geni hyd at 25 oed, gan adlewyrchu hynny yn Lloegr (DfE, 2018). Nodwyd yn ddogfen Dauncey (2015) bod y system yma yn dod mewn yn gyfreithlon yn raddol erbyn Medi 2020. Ond bellach wedi symud i Fedi 2021 (SNAP Cymru, 2020). Credwyd SSCE CYMRU (2020) oherwydd hirhoedledd y cyfnod pontio, gallai hyn achosi dryswch i ymarferwyr ynghylch pa ddeddfwriaeth sydd angen arnynt ei ddilyn.

Dyma'r 11 nod cyffredin y mae'r Ddeddf yn cynnwys:

- 1** ADY nid AAA – diffiniad newydd
- 2** Ar gael i bawb rhwng 0-25 oed
- 3** Cynllun unigol yn hytrach na datgyniadau
- 4** Plentyn hawl eu llais
- 5** Dyheadau uwch a gwell deilliannau
- 6** System fwy syml a fydd yn achosi llai o wrthdaro
- 7** Cydweithio yn cynyddu gan bartneriaid a rhieni/gofalwyr
- 8** Osgoi anghytuno a datrys yn gynt er mwyn llehau straen.
- 9** Hawliau i fod yn glir a thegwch i bawb
- 10** Cod newyd ADY
- 11** Darpariaeth ar gael yn Gymraeg

SENCo i ALNCo

Nodwyd Llywodraeth Cymru (2019) bod rôl Cydlynnydd AAA (SENCo) a chafodd ei nodi yn y Ddeddf Addysg (1996) yn cael ei newid i Gydlynnydd Anghenion Addysgol Dysgu Ychwanegol (ALNCo). Bydd angen i bob ysgol a gynhelir ddynodi person i fod yn ALNCo (Thompson, 2018). Dylai'r person hwn fod yn uwch aelod o staff a meddu ar statws cyfartal i'r pennaeth a'r Dirprwy Bennaeth. Yn ogystal â bod yn gymwysedig mae rhaid i'r ALNCo gael ystod eang o brofiadau ymarferol a hyfforddiant gydag ADY (TSANA,2015). Yn ôl Eteach.com (2013) yr ALNCo sydd yn gyfrifol o ddydd i ddydd am weithredu'r polisi AAA ac am gydlynw'r ddarpariaeth a wneir ar gyfer plant unigol sydd ag AAA. Gan mai'r ALNCo fydd yn gyfrifol am benderfynu a oes gan blentyn ADY a pharatoi a chynnal y cynllun datblygu unigol credau Dauncey (2016) bydd hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar yr unigolyn hwnnw. Cefnogai ESTYN (2018) y newidiadau newydd yma serch hynny, ma nhw yn cwestiynu sut mae'r ysgolion a'r staff yn mynd i gael eu cefnogi i wneud y newidiadau yma yn peth cadarnhaol i blant. A fydd y Llywodraeth yn rhoi digon o arian i gefnogi yr holl hyfforddiant yma sydd angen.

Darpariaeth Dysgu Ychwanegol yn y Gymraeg

Mae'r Ddeddf ADY yn anelu at fod yn system ddwyieithog o gefnogi ac amddiffyn plant sydd angen darpariaeth dysgu ychwanegol (DDY) yn y Gymraeg. Nodwyd gan Llywodraeth Cymru, (2018) os oes angen i ryw faint neu'r cyfan o ddarpariaeth plentyn fod yn Gymraeg, rhaid cofnodi hyn yn y CDU, a chymryd pob cam rhesymol i sicrhau ei fod yn cael ei ddarparu. Pwysleisiwyd Llywodraeth Cymru(2018) nad oes angen CDU ar blentyn os nad yw yn deall yr iaith. O dan y system newydd, lle mae CDU yn darparu ar gyfer math penodol o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol i'w gyflwyno yn Gymraeg, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a chyrff y GIG gymryd pob cam rhesymol i sicrhau'r ddarpariaeth yn Gymraeg. Serch bod opsiwn o cyflwyno darpariaeth yn yr Gymraeg pe bai rhywun yn ei angen yn dod mewn i ddeddfwriaeth. Yr anfanteision yw ni chaiff y graddau y cyflawnir y galw am DDY drwy gyfrwng y Gymraeg ei asesu ar draws Cymru fel mater o drefn ac, felly, ni fydd yn hysbys (Llywodraeth Cymru, 2018). Mae'n nodi yn Erthygl 30 o CCUHP (1989) bod gan plentyn yr hawl i ddysgu a defnyddio eu mamiaith, boed y rhain yn cael eu rhannu gan fwyafrif y bobl yn y wlad ai peidio er mwyn cyrraedd ei llawn potensial.

Cynllun Datblygu Unigol (CDU)

Elfen allweddol o'r Ddeddf ADY yw i ddarparu CDU ar gyfer pob plentyn sydd ag AAA beth bynnag yw'r difrifoldeb (Llywodraeth Cymru, 2018). Bydd hyn yn disodli datganiadau, a ddyfernir yn nodweddiadol i ddisgyblion ag anghenion mwy difrifol neu gymhleth, a chynlluniau addysg unigol (CAU) i ddysgwyr ag anghenion llai cymhleth sydd ar hyn o bryd ar raglenni gweithredu gan yr ysgol neu gweithredu gan yr ysgol a mwy. Fodd bynnag, bydd gan blant sydd â datganiad eisoes yr hawl i gael CDU pan ddaw'r Ddeddf newydd i mewn. Bydd y CDU yn gynllun sengl gyda fformat cyffredin a gaiff ei ddatblygu drwy ddefnyddio dull cynllunio sydd yn canolbwyntio ar yr unigolyn yn enwedig at eu cryferau. Dywed Dauncey (2016) ei fod yn hanfodol bod barn plant a'u rhieni yn cael ei ystyried, a bydd y templed CDU arfaethedig yn cynnwys tudalen gyfan sydd yn canolbwyntio ar adlewyrchu anghenion a phersonoliaeth y plentyn, gan gynnwys yr hyn sydd yn bwysig iddo. Fydd hyn yn dangos bod llais y plentyn yn cael ei hystyried. Mae hyn yn cael ei ddatgan fel hawliau sylfaenol yn Erthygl 12 yn Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) (1989) sydd yn tynnu sylw at bwysigrwydd rhoi llais i blant. Mae ymchwil gan Holtom a Lloyd-Jones (2014) yn dangos nad yw rhieni neu ofalwyr yn hapus gyda'r dull mwy cyfannol hwn. Dywedant y gall rhieni ei chael yn anodd gweld cryfderau eu plentyn neu eu bod yn pryderu y gallant hwy a'r teulu golli budd-daliadau neu wasanaethau os nad oes digon o ffocws ar anawsterau eu plentyn. Felly mae hyn yn dangos bod y system gyfredol yn ymwneud â raddau iechyd, â rhieni sydd eisiau rhoi eu plentyn mewn bocsys er mwyn cael arian a darpariaeth ychwanegol. Cafodd ei nodi gan SNAP Cymru (2016) gan mai cyfrifoldeb yr ALNCo fydd gwneud CDU a gwirio yn rheolaidd ei fod yn gweithio, ynghyd â'r gefnogaeth gan yr awdurdod lleol a'r ysgol neu'r coleg, roedd rhieni hefyd yn pryderu a byddai'r ALNCo yn cael amser i gwblhau'r CDU gan eu bod yn credu bod yna frwydr eisoes gyda CAU.

Gwybodaeth Pellach

Am ragor o wybodaeth darllenwch

(Llywodraeth Cymru , 2018)

